

GWENLLIAN



OWAIN GWYNEDD

(parhad o'r dudalen flaen)

Digon prin yw'r cyfeiriadau at fywyd a gyrfa Hugh yng nghyfrolau ei frawd a'i chwaer. Serch hynny mae lle i gredu fod Hugh Williams wedi cael gyrfa eithaf lwyddiannus yn Llundain fel arlunydd. Fel y dywed ei chwaer, 'Bu'n llwyddiannus . . . fel portrait painter, ac fel commercial artist câi waith gan ffyrms mwyaf pwysig Llundain'.

Tra yn Llundain bu'n lletya am rai blynyddoedd gyda Chymraes o Sir Gaerfyrddin, ac wedi hynny bu'n byw mewn fflat yn agos i'r Caledonian Market. Bu Bob ei frawd yn byw gydag ef yn Llundain am wyth mlynedd. Yn ôl pob sôn yr oedd Bob yn ddarllenwr mawr a Hugh fyddai'n trwsio ei lyfrau!

* * * *

PAN DORRODD yr Ail Ryfel Byd fe effeithiodd y bomio yn Llundain ar iechyd Bob ac ar yrfa Hugh fel arlunydd. Pan faluriwyd ffenestri'r fflat gan fom yn 1940 dychwelodd y ddau i Garndolbenmaen lle y treuliasant weddill eu hoes. Eu cartref yng Ngarndolbenmaen oedd Penybont, y tŷ y symudodd John ac Elizabeth iddo pan ddaethant i'r Garn am y tro cyntaf yn ôl yn 1875.

Bu Hugh Williams farw yn Ysbyty Bryn Beryl, ger Pwllheli, ar y pumed ar hugain o Chwefror 1955 yn 89 mlwydd oed. Fe'i claddwyd ar yr wythfed ar hugain o Chwefror yn yr un bedd â Bob ei frawd ym mynwent Garndolbenmaen. Dyma ran o'r deyrnged a gafwyd iddo yn rhifyn Mawrth 7fed 1955 o *Yr Herald Cymraeg*:

*Daliodd yn heini iawn i'r diwedd, a chafodd iechyd da ar hyd y blynyddoedd, gan ddilyn cwrs y byd, yn enwedig y Senedd, yn fanwl iawn. Gellid ei weled bob dydd hyd o fewn rhyw fis yn ôl, yn mynd yn sionc, am ei bapur newydd i'r Llythyrdy. Edrychai bob amser ar ochr olau bywyd, ac yr oedd yn llawn o hwyl ac ysmaldod. Arferai ei chwaer a dweud amdano bob amser 'Hen wag ydi Hugh'.*

Yn y gyfrol ddefnyddiol *The Dictionary of British Artists 1880-1940* ceir cyfeiriad at un 'Hugh Williams, Painter, London' a fu'n arddangos ei waith mewn orielau ledled y wlad o 1898 hyd 1919. Y mae yna seren gyferbyn â'i enw yn y gyfrol a dynoda hyn fod yna lun gwreiddiol o'i waith wedi ei werthu am dros £100 rhwng 1970 a 1975.

Mae'r gyfrol hefyd yn nodi fod yr arlunydd hwn wedi arddangos lluniau fel a ganlyn yn ystod 1898-1919: 3 llun yn y London Salon; 6 llun yn y Royal Academy; 1 llun yn y Royal Cambrian Academy; 2 lun yn y Royal Hibernian Academy; 3 llun yn y Royal Institute of Painters in Water Colours; 1 llun yn y Royal Institute of Oil Painters; ac 1 llun yn y Royal Scottish Academy. Dyma restr o'r lluniau gan yr Hugh Williams yma a arddangoswyd yn y Royal Academy rhwng 1898 a 1919: The Wreath (1898), A London Street Scene (1912), The Royal Exchange (1914), An April Morning (1916), The Custom House EC (1917), The Kiln (1918) a January (1919). Ai'n Hugh Williams ni yw hwn tybed?

FE YMDDENGYS fod Hugh Williams wedi cyfrannu i golofnau *Cymru'r Plant* yn ei ddyddiau cynnar hefyd. Yng nghyfrol 4 (1895) ceir stori o'r enw 'Tŷ Nain' sydd yn ymestyn dros bedair rhan. Y mae'r stori wedi ei haddurno â lluniau o waith Hugh Williams ac y mae 'HW' sydd mor nodweddiadol ohono i'w weld ar bob llun.

Wedi codi cwr y llen ar fywyd a gwaith Hugh Williams yr arlunydd ni allaf ond gobeitho y bydd selogion *Y Casglwr* yn medru cyfrannu'n helaethach at y mater.

Y mae yna lu o gwestiynau na lwyddais i'w hateb, e.e. pwy gyflogodd Hugh Williams i wneud y darlun 'Y Sasiwn Gyntaf' yn 1912? Sut yr aeth y darlun gwreiddiol o 'Y Sasiwn Gyntaf' i feddiant William Pritchard, Muriau, Caernarfon, cyn iddo ef ei roi i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth? Beth oedd y cysylltiad rhwng D. S. Hughes, Prestatyn a Lerpwl y gŵr roddodd nifer o weithiau Hugh Williams i'r Llyfrgell Genedlaethol a Hugh Williams? A oes rhywun yn gwybod rhywbeth am y poster 'Bovril' hwnnw yr oedd Siân Williams yn ei gofio mor glir?

## Cylchgronau — AM DDIM!

**DYMA gynnig hael heb ei fath i ddarllenwyr *Y Casglwr*, ac yn arbennig i'r rheini sy'n chwilio am rifynnau unigol o gylchgronau i gwblhau eu casgliad.**

**Mae ôl-rifynnau ar gael o *Barn, Barddas, Y Casglwr, Llais Llyfrau* a *Llên a Llyfrau Cymru*. Gellir eu cael am ddim wedi eu danfon neu trwy'r post wrth gysylltu a Llwyncelyn, Cefn Bychan, PENTYRCH, Caerdydd CF4 8PG. Ffôn: (0222) 890702.**

**Nifer cyfyngedig iawn o bob copi sydd yna, a'r cyntaf i'r felin gaiff yr helfa.**

**Mae ymhell iawn tros gant o rifynnau o *Barn*, o 1972 ymlaen hyd 1991. Un rhifyn, sef 122 sydd yna o 1972, tri, sef 124, 127, 134 o 1973 a thri, sef 140, 142, 144 o 1974. Mae nifer helaeth i fyny i 1986 gyda thri yn 1988, sef 300, 301, 302, un yn 1989, sef 319 a thri yn 1190, sef 332, 333, 334.**

**Mae tri rhifyn o *Barddas* am 1977, sef 4, 8, 12 a nifer dda iawn — bron yn gyflawn, o bob blwyddyn wedyn hyd ddiwedd 1991.**

**Mae *Y Casglwr* yn gyflawn o ddechrau 1978 hyd ddiwedd 1991, ar wahân i Nadolig 1978, Nadolig 1980, Mawrth 1982, Nadolig 1983, Awst 1985, Nadolig 1987, a Nadolig 1988.**

**Mae'r rhan fwyaf o *Llais Llyfrau* o 1979 (Haf, Hydref) i 1991 (Gwanwyn, Haf) ar gael. Mae 1982, 1985, 1986, 1988 yn cynnwys y pedwar rhifyn.**

**Copïau *Llen a Llyfrau Cymru* ar gael yw Hydref 1979, Haf 1980, Hydref 1981, Hydref 1983.**